***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1648 (Cy. 346) (C. 51)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Amaethyddiaeth 2020 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2020

*Gwnaed - - - - 29 Rhagfyr 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 57(3)(b) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Amaethyddiaeth 2020 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2020.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2021**

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 i rym ar 1 Ionawr 2021—

(a) paragraffau 7 ac 8 o Ran 2 o Atodlen 5 (darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru), a

(b) adran 46 (Cymru), i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

29 Rhagfyr 2020

(**1**) 2020 p. 21.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Weinidogion Cymru ac maent yn dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 (p. 21) ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2(a) yn dwyn i rym, ar 1 Ionawr 2021, baragraffau 7 ac 8 o Ran 2 o Atodlen 5 i'r Ddeddf.

Mae rheoliad 2(b) yn dwyn i rym, ar 1 Ionawr 2021, adran 46 o'r Ddeddf i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny.

Mae paragraff 7 o Atodlen 5 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud a chyhoeddi datganiad bod "amodau eithriadol yn y farchnad" (fel y diffinnir "exceptional market conditions" yn y paragraff hwnnw) yn bodoli sy'n cyfiawnhau rhoi ar gael bwerau a roddir gan baragraff 8 o Atodlen 5.

Mae paragraff 8 o Atodlen 5 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, tra bo datganiad a wneir o dan baragraff 7 yn cael effaith, roi, neu gytuno i roi, cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru, yn ddarostyngedig i'r amodau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.